# PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 7 Chwefror, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.E. Charles (Cadeirydd); Cynghorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.M. Ball, C.A. Cave, C.M. Cowpe, R. Fisher, S. Lloyd-Selby, J. Lynch-Wilson, J.M. Norman a C. Stallard.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), E. Goodjohn, W.A. Hennessy, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd A.M. Collins.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2023 fel cofnod cywir yn amodol ar nodi'r gwall teipio ym mharagraff un o gofnod 602. Dylai rhifau cyfeirnod y paragraff nodi 1.1 ac 1.2.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd S. Lloyd-Selby Ddiddordeb Personol yn Eitem Agenda Rhif 4 – Cyllideb 2023/24 ar gyfer Ymgynghori a Diweddariad Pellach o'r CATC (Cyfeiriad gan y Cabinet: 19 Ionawr, 2023). Roedd gan y Cynghorydd Lloyd-Selby aelodau teulu lluosog yn derbyn cefnogaeth Teleofal ac un aelod o'r teulu yn derbyn Pecyn Gofal. Roedd gan y Cynghorydd Lloyd-Selby oddefeb gan y Pwyllgor Safonau i siarad yn unig ar faterion yn ymwneud â gwasanaethau Teleofal a Phecyn Gofal yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg. Arhosodd y Cynghorydd yn y cyfarfod am yr eitem.

Datganodd y Cynghorydd S. Lloyd-Selby Ddiddordeb Rhagfarnol yn Eitem Agenda Rhif 5 – Cyngor Bro Morgannwg – Ffioedd a Thaliadau Arfaethedig ar gyfer 2023/2024 (Cyfeirnod gan y Cabinet: 19 Ionawr, 2023). Roedd gan y Cynghorydd Lloyd-Selby aelodau teulu lluosog yn derbyn cefnogaeth Teleofal ac un aelod o'r teulu yn derbyn Pecyn Gofal. Roedd gan y Cynghorydd Lloyd-Selby oddefeb gan y Pwyllgor Safonau i siarad yn unig ar faterion yn ymwneud â gwasanaethau Teleofal

a Phecyn Gofal yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg.  Gadawodd y Cynghorydd y cyfarfod am yr eitem.

EITEM AGENDA 4. CYLLIDEB 2023/24 AR GYFER YMGYNGHORI A DIWEDDARIAD PELLACH O'R CATC (CYF) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI cyfeirnod y Cabinet a'r adroddiad Cabinet atodedig mewn perthynas â Chyllideb Ymgynghori 2023/24 a Diweddariad Pellach o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

(2) BOD sylwadau canlynol y Pwyllgor yn cael eu hanfon at y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau:

- O ganlyniad i ddiwydrwydd parhaus Swyddogion y Cyngor, mae'r Pwyllgor eisoes yn hyddysg yn y pwysau sylweddol a wynebir gan y sector Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Mae Aelodau'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r gyllideb arfaethedig fel y'i cyflwynwyd sy'n gynnig manwl ynghylch buddsoddi mewn meysydd hanfodol o'r ddarpariaeth Gofal Cymdeithasol er gwaethaf y pwysau ariannol enfawr y mae'r Cyngor yn ei wynebu.
- Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r holl gynigion ar gyfer buddsoddi a gyflwynir yn yr adroddiad.
- Mae'r pwysau sydd i'w weld yn glir o fewn y sector Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynyddu ac yn statudol. Felly, mae gan y Cyngor rwymedigaeth statudol i ariannu'r pwysau a nodwyd ac i sicrhau bod gwasanaethau'n gweithredu mor effeithiol â phosibl.
- Mae'r Pwyllgor yn diolch i'r Swyddogion Cyllid am adroddiad dealladwy a chyflwyniad ategol defnyddiol.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Gan ystyried cynnwys cyfeiriad ac adroddiad y Cabinet i sicrhau bod tybiaethau cyllid ac arbedion yn cael eu dilysu a bod cynigion arbedion yn realistig ac yn gyflawnadwy ac nad ydynt yn cael unrhyw effeithiau anfwriadol.

(2) Sicrhau bod sylwadau’r Pwyllgor yn cael eu hystyried gan Berfformiad Corfforaethol ac Adnoddau fel y Pwyllgor Craffu arweiniol, gydag unrhyw argymhellion yn cael eu cyfeirio’n ôl i’r Cabinet ar 27 Chwefror, 2023.

EITEM AGENDA 5. CYNGOR BRO MORGANNWG – FFIOEDD A THALIADAU ARFAETHEDIG AR GYFER 2023/2024 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad Cabinet atodedig mewn perthynas â Ffioedd a Thaliadau Arfaethedig Bro Morgannwg ar gyfer 2023/2024.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys cyfeiriad ac adroddiad y Cabinet ar y newidiadau arfaethedig yn y taliadau gwasanaeth ar gyfer swyddogaethau a reolir gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

EITEM AGENDA 6. CYNIGION RHAGLEN GYFALAF DRAFFT 2023/24 I 2027/28 (CYF) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI cyfeirnod y Cabinet a'r adroddiad Cabinet atodedig mewn perthynas â Chynigion Drafft y Rhaglen Gyfalaf 2023/24 i 2027/28.

(2) Bod sylwadau canlynol y Pwyllgor yn cael eu hanfon at y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau:

- O ganlyniad i ddiwydrwydd parhaus a ddangoswyd gan Swyddogion y Cyngor, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol iawn o'r costau sylweddol yr eir iddynt o ganlyniad i'r gofyniad i leoli plant a phobl ifanc y tu allan i'r ardal.
- Mae’r adroddiad wedi’i eirio’n ‘buddsoddi i arbed’ ac felly mae’r Pwyllgor yn cymeradwyo’r adroddiad fel y’i cyflwynwyd sy’n cynnwys manylion am fuddsoddi mewn darpariaeth llety arbenigol yn y gymuned er gwaethaf y pwysau ariannol enfawr y mae’r Cyngor yn ei wynebu.
- Mae’r Pwyllgor yn croesawu’r adroddiad sy’n dangos dull y Cyngor o roi anghenion plant ac oedolion agored i niwed o flaen y gofyniad i arbed arian.
- Fel Cyngor a Phwyllgor, rydym yn ceisio cynnig yr amddiffyniad gorau y gallwn ei gynnig i unigolion bregus ym Mro Morgannwg o ystyried y cyfyngiadau ariannol sydd ar y Cyngor.
- Mae'r Pwyllgor yn diolch i'r Swyddogion Cyllid am adroddiad dealladwy a chyflwyniad ategol defnyddiol.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys cyfeiriad ac adroddiad y Cabinet i ystyried y cynigion drafft mewn perthynas â'r gyllideb gyfalaf derfynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 i 2027/28.

(2) Sicrhau bod sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu hystyried gan Berfformiad Corfforaethol ac Adnoddau fel y Pwyllgor Craffu arweiniol, fel bod y Cabinet yn cael gwybod am sylwadau'r holl Bwyllgorau Craffu cyn gwneud cynnig ar y Rhaglen Gyfalaf.

EITEM AGENDA 7. MONITRO REFENIW AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 TACHWEDD, 2022 (CGC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2022/23 yr Awdurdod.

(2) Y DYLID nodi'r trefniadau ar gyfer gwrthbwyso'r gorwariant a ragwelir yn 2022/23, fel y nodir yn yr adroddiad.

(3) BOD y Gyllideb Refeniw ddiwygiedig ar gyfer 2022/23, fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad, yn cael ei chymeradwyo.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad, hysbysu'r Pwyllgor am yr alldro refeniw a ragwelir ar gyfer 2022/23.

(2) Ymateb i bwysau chwyddiant tâl a phrisiau sy'n dod i'r amlwg yn 2022/23.

(3) Addasu'r Gyllideb Refeniw ddiwygiedig ar gyfer 2022/23 ar gyfer symudiadau rhwng Cyfarwyddiaethau.

EITEM AGENDA 8. MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 30 MEDI 2022 (CGC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r cynnydd a wnaed ar gyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23, o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) NODI'r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y nodir yn yr adroddiad.

(3) NODI'r defnydd o Bwerau Argyfwng o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y manylir arno yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

(4) NODI’r newidiadau i Raglen Gyfalaf 2022/23 a’r Flwyddyn i’r Dyfodol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y’u nodir yn yr adroddiad.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad, hysbysu'r Pwyllgor am y cynnydd ar y Rhaglen Gyfalaf.

(2) Hysbysu'r Pwyllgor am y defnydd o Awdurdod Dirprwyedig.

(3) Hysbysu'r Pwyllgor am ddefnyddio Pwerau Argyfwng.

(4) Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf.

EITEM AGENDA 9. TRACIO ARGYMHELLION CRAFFU O'R 3YDD CHWARTER A RHAGLEN WAITH WEDI'I DIWEDDARU 2022/2023 (PW) –

ARGYMHELLWYD –

(1) CYTUNO ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A a B i'r adroddiad.

(2) CYMERADWYO'r Rhaglen Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol wedi'i diweddaru ar gyfer 2022/23, sydd ynghlwm yn Atodiad C, a'i lanlwytho i wefan y Cyngor yn amodol ar dynnu'r eitem ganlynol oddi ar dudalen 27:

- Adroddiad Gwasanaethau Cymdeithasol – Strategaeth Gofalwyr (Cymorth i Ofalwyr ym Mro Morgannwg).

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Parhau i olrhain argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Er gwybodaeth i'r cyhoedd ac i adlewyrchu bod adroddiad y Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Strategaeth Gofalwyr bellach wedi'i amserlennu ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth 2023.